

Y ffordd ymlaen i Gymru

Gosod bwyd, ffermio, bwyoliaeth, cymunedau ac amgylchedd Cymru ar sylfaen gadarn ar ôl Brexit

1. Sefydlogrwydd

Y flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru yw darparu sefydlogrwydd mewn byd o ansicrwydd

- Mae diwydiant bwyd a ffermio Cymru eisoes yn wynebu heriau ac ansicrwydd heb eu debyg o ganlyniad i faterion sydd y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru
- Mae'r perygl y bydd diwygiadau pellgyrhaeddol i gefnogaeth wledig yn ychwanegu at sefyllfa sydd eisoes yn ansefydlog yn sylweddol a blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw darparu sefydlogrwydd trwy ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael
- Dylid ystyried y newidiadau sylweddol unwaith y bydd gyda ni wybodaeth glir am ein perthynas fasnachu â'n prif bartneriaid masnachu yn y dyfodol
- Ni ddylai pontio darpar bolisiau ddechrau nes bydd yna ymchwiliad manwl ar yr effeithiau ar bob busnes, sector a rhanbarth o Gymru, ac asesiad llawn o allu Llywodraeth Cymru i gyflwyno unrhyw gynlluniau

2. Ffermydd Teuluol

Mae'n rhaid i ddarpar bolisiau gwledig Cymru gadw teuluoedd sy'n cynhyrchu bwyd ar y tir

- Y fferm deuluol yw asgwrn cefn ein cymunedau gwledig a'n cymunedau ehangach, gan gynhyrchu bwyd o'r radd flaenaf, diogel a fforddiadwy i'r cwsmer
- Mae'r teuluoedd hyn sy'n cynnal ein heconomi, yr amgylchedd, y dirwedd, yr iaith a diwylliant, yn haeddu lle wrth wraidd polisiau Llywodraeth Cymru
- Felly, dylai'r ffermydd teuluol sy'n cymryd y risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd ochr yn ochr â phob math o waith ar y tir fod wrth wraidd unrhyw ddarpar bolisi trwy reol Ffermwr Actif cryfach

3. Cefnogi Cymunedau Gwledig a Swyddi Cymru

Mae'n rhaid cynnal y gefnogaeth uniongyrchol sy'n sail i gynhyrchu bwyd diogel o'r safon uchaf er mwyn osgoi achosi niwed na anadferadwy i Gymru

- Ein ffermwyr yw calon y cadwyni cyflenwi bwyd sy'n cynnal diwydiant bwyd a diod aml biliwn a channoedd o filoedd o swyddi yng Nghymru
- Beth bynnag sy'n digwydd ar ôl Brexit, bydd ein diwydiant yn parhau i weithredu a cystadlu mewn marchnad fyd-eang, gan gystadlu â ffermwyr ledled y DU, yr hyn sy'n weddill o'r UE a gweddill y byd

- Byddai ildio cymorth uniongyrchol sy'n sail i gynhyrchu bwyd diogel o safon uchel ar adeg pan na fydd ein cystadleuwyr allweddol yn bwriadu gwneud yr un peth yn achosi niwed na anadferadwy i'r economi, yr amgylchedd, y dirwedd, yr iaith a diwylliant Cymru
- Mae'n rhaid i Gymru ddylunio polisi sy'n cefnogi pob sector a rhan o Gymru, gan sicrhau tegwch rhwng cymdogaion a rhanbarthau, a'u bod nhw'n cael eu trin yn yr un modd a ffermwyr yn rhywle arall

4. Amaethyddiaeth Gynaliadwy

Mae'n rhaid i Gymru barhau i fuddsoddi mewn mesurau sy'n hybu cynhyrchiant, yn gwella effeithlonrwydd a chefnogi ffermwyr i gynyddu potensial y farchnad wrth fodloni rhwymedigaethau amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd

- Mae gadael yr UE yn creu cyfle i ddarparu cymorth wedi'i dargedu'n well i helpu teuluoedd sy'n ffermio i gynyddu potensial y farchnad, a hybu gwelliannau i gynhyrchiant
- Gellid dysgu llawer o gyflwyno'r cynlluniau Datblygu Gwledig cyfredol yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill sydd wedi llwyddo i hybu cynhyrchiant a gwelliannau effeithlonrwydd ar draws y diwydiant ffermio
- Mae sefydliadau ffermio eisoes wedi amlinellu cynigion manwl ar gyfer integreiddio mesurau buddsoddi, cyfnewid gwybodaeth a sgiliau a chipio data er mwyn ysgogi gwelliannau mesuradwy ym mherfformiad economaidd ac amgylcheddol, gan gynnwys lleddfu newid yn yr hinsawdd
- Dylai egwyddorion o'r fath ffurfio sylfaen i ddarpar gynllun wedi'i anelu at gwydnwch economaidd

5. Gwobrwo Canlyniadau Amgylcheddol

Mae ffermwyr Cymru wedi cyflawni canlyniadau cyhoeddus cadarnhaol i'r genedl ers canrifoedd, a rhaid eu gwobrwo'n deg am yr hyn y maent eisoes wedi'i gyflawni, yn parhau i gyflawni ac yn ei gyflawni yn y dyfodol

- Yn hanesyddol, gwelwyd Cymru fel enghraifft o wobrwyo ffermwyr am ddarparu nwyddau cyhoeddus ac amgylcheddol trwy gynlluniau megis Tir Gofal, a luniwyd o ganlyniad i dreialu llwyddiannus
- Bellach, mae gennym y cyfle i adeiladu ar brofiad a gwybodaeth flaenorol trwy sicrhau bod ffermwyr yn cael eu gwobrwo'n well am yr hyn y maent yn ei ddarparu i gymdeithas
- Dylid cyflawni hyn trwy gynllun ychwanegol sy'n ategu'r polisi allweddol o ddarparu sefydlogrwydd trwy gymorth uniongyrchol i ffermydd teuluol sy'n cynhyrchu bwyd

